

# Rhaglen y Rhyl yn Symud Ymlaen Cynllun Darparu Cymdogaeth a Lleoedd

## Adroddiad Blynyddol 2013

# Rhyl Going Forward Programme Neighbourhood and Places Delivery Plan

## Annual Report 2013

Y Rhyl yn Symud Ymlaen

Rhyl going forward

# Cynnwys


Cyflwyniad 2
Llif Gwaith Gorllewin y Rhyl 4
Llif Gwaith Twristiaeth a'r Arfordir 6
Llif Gwaith Canol y Dref 10
Llif Gwaith Bywyd a Gwaith 12
Casgliad 14
Cysylltwch â ni 16


# Contents


Introduction 3
West Rhyl Work Stream 5
Tourism & The Coastal Strip Work Stream 8
Town Centre Work Stream 11
Live & Work Work Stream 13
Conclusion 15
Contact us 16




## Pan ddes i i Sir Ddinbych ychydig dros flwyddyn yn ôl, gwnaethpwyd argraff arnaf yn syth gan leoliad ardderchog y Rhyl

# Cyflwyniad

Pan ddes i i Sir Ddinbych ychydig dros flwyddyn yn ôl, gwnaethpwyd argraff arnaf yn syth gan leoliad ardderchog y Rhyl sy'n hawdd cyrraedd ato o ganolfannau poblogaeth mawr Gogledd Orllewin a Chanolbarth Lloegr, ac yn fan y bydd llawer yn genfigennus ohono ar arfordir Gogledd Cymru.  Pan gyrhaeddodd y rheilffordd yng nghanol y 19eg ganrif, dyma'r ffactorau a arweiniodd at ei sefydlu fel cyrchfan glan y môr.

Ond pan ddaeth gwyliau tramor yn fforddiadwy yn niwedd yr 20fed ganrif, lleihaodd y galw am yr hyn oedd gan y Rhyl i'w gynnig a symudodd pobl llai actif yn economaidd oedd yn chwilio am lety rhatach i nifer o gyn westai'r dref, a gyda gwahanol grwpiau diamddiffyn yn byw yn yr un gymdogaeth, rhoddodd hyn straen ar y gwasanaethau lleol.

Roedd adfywiad ffisegol yn y dref wedi'i arwain yn wreiddiol gan "Y Rhyl yn Symud Ymlaen – Strategaeth a Rhaglen Buddsoddi Allweddol" a gyflwynwyd i Lywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Ebrill 2004. Dynodwyd "Ardal Adfywio Strategol" Arfordir Gogledd Cymru yn ddilynol gan y Llywodraeth yn 2008 a chredwyd bod adfywio'r Rhyl yn ganolog i'r strategaeth hon. Mabwysiadwyd "Cynllun Darparu Cymdogaeth a Lleoedd y Rhyl yn Symud Ymlaen" sy'n amlinellu'r holl ymyriadau mewn safleoedd, adeiladau a materion rheoli cymdogaeth yn y dref ym mis Tachwedd 2011 er mwyn uno'r holl bethau hyn.  Felly dyma'r adroddiad blynyddol cyntaf ar y Cynllun Darparu. Bydd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i fudd-ddeiliaid lleol ar y cynnydd sylweddol a wnaed ers ei fabwysiadu, er gwaethaf yr hinsawdd economaidd anodd, ac argaeledd cyfyngedig yr arian buddsoddi ym mhob sector. Bydd hefyd yn rhoi blas i ddarpar fuddsoddwyr o'r llwyddiannau hyd yma a chipolwg o'r datblygiadau sydd wedi'u cynllunio ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

Er mwyn cyflawni'r Cynllun yn effeithiol, cafodd ei drefnu mewn pedwar llif gwaith ac mae'r rhain yn sail i'r Adroddiad Blynyddol hwn.

Nid wyf yn amcangyfrif yn rhy isel graddfa'r dasg o'n blaenau, ond rwy'n falch iawn gyda'r hyn sydd eisoes wedi'i gyflawni yn y dref, ac rwy'n siŵr y byddwch chithau yn falch hefyd ar ôl darllen yr adroddiad hwn.



**Rebecca Maxwell**
Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol, Cyngor Sir Ddinbych

Cadeirydd, Bwrdd Rhaglen y Rhyl yn Symud Ymlaen



## When I came to Denbighshire just over a year ago, I was immediately impressed by Rhyl's superb location






# Introduction

When I came to Denbighshire just over a year ago, I was immediately impressed by Rhyl's superb location which is easily accessible from the major centres of population in North West England and the Midlands, and it's an enviable setting on the North Wales coast. When the railway arrived in the middle of the 19th century, these were the factors which brought about its establishment  as a seaside resort.

But with the advent of affordable foreign holidays in the latter years of the 20th century, the demand for Rhyl's offer diminished and less economically active people seeking cheaper accommodation moved in to many of the town's former guest houses and with different vulnerable groups living in the same neighbourhood, this put a substantial strain on local services.

Physical regeneration in the town had originally been guided by the "Rhyl Going Forward - Strategy and Key Investment Programme" which was submitted to the then Welsh Assembly Government in April 2004. The North Wales Coast "Strategic Regeneration Area" was subsequently designated by the Government in 2008 and the regeneration of Rhyl was considered to be central to this strategy. The "Rhyl Going Forward Neighbourhood & Places Delivery Plan" which outlined all the interventions in sites, buildings and associated neighbourhood management issues in the town was adopted in November 2011 in order to bring all these strands together. This then is the first annual report on the Delivery Plan. It will provide local stakeholders with an update on the considerable progress which has been made since its adoption despite the difficult economic climate and the limited availability of investment funding in all sectors. It will also provide prospective investors with a flavour of the achievements to date and a glimpse of the future developments which are planned for the years ahead.

In order to deliver the Plan effectively, it was arranged in four work streams and these form the basis for this Annual Report.

I do not underestimate the scale of the challenge which remains but I am heartened by what has already been achieved in the town and I am sure you will be equally impressed when you read this report.



**Rebecca Maxwell**
Corporate Director: Economic & Community Ambition, Denbighshire County Council

Chair, Rhyl Going Forward Programme Board

## Concept Design




# Llif Gwaith Gorllewin y Rhyl

Nod cyffredinol y llif gwaith hwn yw creu cymdogaeth ddeniadol yn Ardal Adfywio Gorllewin y Rhyl lle bydd pobl sy'n gweithio eisiau byw. Yr amcanion ar gyfer y llif gwaith hwn yw;

- creu marchnad dai cytbwys sydd heb ei ddominyddu gan un math o dai neu un math o ddaliadaeth;
- creu cymuned gytbwys a sefydlog gyda rhagor o bobl actif yn economaidd yn byw yn y gymdogaeth; a
- gwella edrychiad a syniadau am yr ardal.

Y prosiect mwyaf o bell ffordd sydd wedi'i gynnwys yn y llif gwaith hwn yw Prosiect Gwella Tai Gorllewin y Rhyl gwerth £23 miliwn. Bydd y prosiect hwn yn lleihau nifer y Tai Amlfeddiannaeth yn yr ardal yn helaeth ac yn gwella ansawdd y tai a'r amgylchedd cyfagos yn gyffredinol. Mae'r datblygiadau preswyl sydd wedi'u cynnal yng Ngorllewin y Rhyl yn y degawdau diwethaf wedi'u cynnal bron yn gyfan gwbl gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Rydym eisiau torri'r cylch hwn a gweithio gyda datblygwyr preifat i ddarparu cartrefi newydd fydd yn denu a chadw pobl sy'n actif yn economaidd. Rydym hefyd yn ceisio ymateb i'r uchelgais gymunedol i greu man gwyrdd newydd yng nghanol yr ardal.

I gyflawni'r dyheadau hyn;

- mae partneriaid y prosiect rŵan yn berchen ar 91 o'r 120 eiddo sydd eu hangen;
- Mae Gorchmynion Prynu Gorfodol wedi'u gwneud fydd yn galluogi caffael yr eiddo sy'n weddill nad oedd yn bosibl eu caffael trwy gytundeb gwirfoddol;
- Mae 99 o'r 128 preswylydd sydd angen eu hadleoli o'r eiddo dan sylw wedi'u symud i gartrefi newydd;
- Mae 22 o'r 52 eiddo sydd heb swyddogaeth i'r dyfodol yn yr ardal wedi'u dymchwel; ac
- mae ymgynghorwyr tirweddu wedi'u caffael i ddylunio'r man gwyrdd.

Yn ystod y ddwy flynedd nesaf;

- bydd yr holl eiddo sy'n weddill ac sydd eu hangen i gyflawni'r prosiect wedi'u caffael;
- bydd y preswylwyr sydd ar ôl yn yr eiddo dan sylw wedi'u hadleoli;
- bydd partneriaid wedi'u dewis i adnewyddu'r eiddo fydd yn cael eu cadw ac adeiladu eiddo newydd ar y safleoedd sydd i'w hailddatblygu;
- bydd dyluniad y man gwyrdd wedi'i gwblhau ar ôl ymgynghoriad helaeth gyda'r gymuned; a
- bydd y gwaith o greu'r man gwyrdd wedi'i gwblhau.






# West Rhyl Work Stream

The overall aim of this work stream is to create an attractive neighbourhood in the West Rhyl Regeneration Area where working people will want to live. The objectives for this work stream are;

- to create a balanced housing market which is not dominated by one type of housing or by one type of tenure;
- to create a balanced, stable community with more economically active people living in the neighbourhood; and
- to improve the appearance and perception of the area.

By far the largest project included in this work stream is the £23 million West Rhyl Housing Improvement Project. This project will significantly reduce the number of Houses in Multiple Occupation in the area and generally improve the quality of housing and surrounding environment. The residential developments which have taken place in West Rhyl in the last few decades have almost exclusively been led by Registered Social Landlords. We want to break this cycle and work with private developers to provide new homes that will attract and retain economically active people. We are also seeking to respond to a long held community ambition to create a new green space in the heart of the area.

To deliver these aspirations;

- the partners in the project now own 91 of the 120 properties required;
- Compulsory Purchase Orders have been made which will enable the acquisition of the remaining properties which could not be acquired by voluntary agreement;
- 99 of the 128 residents who need to be relocated from the properties affected have moved to new homes;
- 22 of the 52 properties which have no future role in the area have been demolished; and
- landscape consultants have been procured to design the green space.

Over the next two years;

- all the remaining properties required to deliver the project will have been acquired;
- the remaining residents in the properties affected will have been relocated;
- partners will have been chosen to renovate the properties which are to be retained and to construct new properties on the sites which are to be redeveloped;
- the design of the green space will have been finalised following extensive community consultation; and
- the construction of the green space will have been completed.



# Llif Gwaith Twristiaeth a'r Arfordir

Nod cyffredinol y llif gwaith hwn yw creu busnes newydd a chyfleoedd gwaith trwy gynyddu niferoedd ymwelwyr a gwariant ymwelwyr ar yr arfordir a'r amcanion yw;

- gwella profiad ymwelwyr trwy sicrhau amgylchedd glân sydd wedi'i gynnal yn dda, awyrgylch croesawgar a darparu ystod o weithgareddau a digwyddiadau;
- creu atyniadau newydd i ymwelwyr sy'n gyson gydag apêl gyfredol y Rhyl fel cyrchfan ar gyfer teuluoedd, ond un a fydd yn denu ymwelwyr sydd ddim yn ymweld fel arfer; a
- marchnata'r cyrchfan hwn yn fwy effeithiol i wella barn y cyhoedd am y Rhyl fel lle i ymweld ag o, neu fel lle i fyw ynddo neu i fuddsoddi ynddo.

> ...gwella profiad ymwelwyr trwy sicrhau amgylchedd glân sydd wedi'i gynnal yn dda...






Hyd yma,

- mae ramp mynediad newydd ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn wedi'i ddarparu i'r traeth yn Rhodfa'r Dwyrain gydag arian gan RWE, datblygwyr fferm wynt alltraeth Gwynt y Môr, a bydd y cyfleusterau gwell yn ein galluogi i gyflwyno'r traeth am wobrau ansawdd glan y môr;
- mae'r hen Honey Club wedi'i ddymchwel ac mae partner datblygu wedi'i ddewis i ddarparu gwesty 63 ystafell wely newydd sbon ar y safle;
- Cafwyd Gorchymyn Prynu Gorfodol fydd yn galluogi Cyngor Sir Ddinbych i gaffael yr eiddo llosg yn 25/26 Rhodfa'r Gorllewin ger safle'r hen Honey Club;
- mae pont newydd eiconig wedi agor ar gyfer beicwyr a cherddwyr ar draws yr harbwr fydd yn darparu'r dolen goll yn Llwybr Beicio Cenedlaethol 5 a Llwybr Arfordir Cymru;
- mae angorfeydd newydd a gwell wedi'u darparu yn yr harbwr;
- Cafwyd caniatâd cynllunio ar gyfer cyfleuster sgïo cebl yn y Llyn Morol; a
- crëwyd brand a gwefan newydd Love Rhyl fydd yn ategu'r strwythur newydd ar gyfer ardaloedd marchnata twristiaeth sydd wedi'u cyflwyno gan Croeso Cymru.

Pethau sydd dal angen eu datblygu yw;

- Y cynllun datblygu cymysg Ocean Plaza yn hen safle'r ffair yn Rhodfa'r Gorllewin sydd wedi'i oedi oherwydd yr angen i gael cyflenwadau pŵer ychwanegol a darparu amddiffynfeydd ychwanegol rhag llifogydd ar gyfer y cynllun a gynigiwyd; ac
- adeiladu'r cyfleuster sgïo cebl arfaethedig yn y Llyn Morol nad oedd yn bosibl ei agor yn barod ar gyfer tymor yr haf oherwydd amseru'r caniatâd cynllunio.

Yn ystod y ddwy flynedd nesaf;

- bydd y traeth yn cael ei gyflwyno ar gyfer Gwobr Glan y Môr;
- bydd yr eiddo llosg yn 25/26 Rhodfa'r Gorllewin wedi'i ddymchwel (erbyn mis Mawrth 2014);
- bydd y gwesty newydd a gynigiwyd ar gyfer safle'r hen Honey Club wedi'i gwblhau a bydd yn cael ei weithredu gan gadwyn genedlaethol;
- bydd Cyngor Sir Ddinbych wedi ystyried achos busnes ar gyfer canolfan acwatig newydd sbon yn Rhodfa'r Gorllewin i ddisodli'r Heulfan a gwelliannau i Theatr y Pafiliwn fydd yn gwneud hyn yn bosibl;
- bydd Gorchymyn Grym Harbwr wedi'i wneud fydd yn creu awdurdod statudol i reoli'r harbwr; a
- disgwylir y bydd datblygwyr Ocean Plaza wedi cyflwyno cynigion ar gyfer cynllun newydd i'r safle.





# Tourism & The Coastal Strip Work Stream

The overall aim of this work stream is to create new business and job opportunities by increasing visitor numbers and visitor spend along the coastal strip and the objectives are;

- to improve the visitor experience by ensuring a clean and well maintained environment, a welcoming atmosphere and by providing a range of activities and events;
- to create new visitor attractions that are consistent with the current appeal of Rhyl as a family orientated seaside resort, but that will attract visitors who currently do not visit; and
- to market the resort more effectively to improve the public perception of Rhyl as a place to visit, or in which to live or invest.

> ...to improve the visitor experience by ensuring a clean and well maintained environment...

So far,

- a new access ramp for wheelchair users has been provided to the beach at East Parade with funding from RWE , the developers of the Gwynt y Mor offshore wind farm, and the improved facilities will enable the beach to be entered for seaside quality awards;
- the former Honey Club has been demolished and a development partner has been selected to provide a brand new 63 bedroom hotel on the site;
- a Compulsory Purchase Order has been obtained which will enable Denbighshire County Council to acquire the burnt out property at 25/26 West Parade next to the site of the former Honey Club;
- an iconic new bridge for cyclists and pedestrians has been opened across the harbour which will provide the missing link in National Cycle Route 5 and the Wales Coast Path;
- new and improved moorings have been provided in the harbour;
- Planning permission has been obtained for a cable ski facility at Marine Lake; and
- a new Love Rhyl brand and website has been created which will complement the new structure for tourism marketing areas which has been introduced by Visit Wales.

Yet to be progressed are;

- the Ocean Plaza mixed development scheme at the former fun fair site in West Parade which has been delayed due to the need to obtain additional power supplies and provide additional flood defences for the scheme which was being proposed; and
- the construction of the proposed cable ski facility at Marine Lake which was unable to open in time for the peak summer season because of the timing of the Planning permission.

Over the next two years;

- the beach will have been entered for a Seaside Award;
- the burnt out property at 25/26 West Parade will have been demolished (by March 2014);
- the new hotel proposed for the site of the former Honey Club will have been completed and will be operated by a national chain;
- Denbighshire County Council will have considered a business case for a brand new aquatics centre at West Parade to replace the Sun Centre and improvements to the Pavilion Theatre which this will make possible;
- a Harbour Empowerment Order will have been made which will create a statutory authority to manage the harbour; and
- the developers of Ocean Plaza are expected to have brought forward a proposals for a new scheme for their site.




# Llif Gwaith Canol y Dref

Nod y llif gwaith hwn yw creu cyfleoedd busnes a gwaith newydd yng nghanol y dref trwy gefnogi buddsoddiad mewn adwerthu, ond hefyd trwy gyflwyno defnyddiau newydd ac amrywio economi canol y dref.

Mae angen datblygu'r llif gwaith hwn ymhellach ond mae cynnydd eisoes wedi'i wneud ar nifer o gamau gweithredu ac mae'r rhain yn cynnwys;

- gwelliant helaeth i edrychiad y prif fynedfa i ganol y dref ar gyfer pobl sy'n defnyddio cludiant cyhoeddus trwy adfer hen dafarndai'r Bee & Station a Costigan's, a bydd yr eiddo hyn rŵan yn gallu darparu ar gyfer mathau newydd o gyflogaeth yng nghanol y dref;
- Adfer mannau allanol yr eiddo adfail yn 45-47 Stryd y Dŵr;
- sefydlu marchnad stryd ar y Stryd Fawr a Stryd y Farchnad ar ddydd Iau a dydd Sadwrn;
- sefydlu Grŵp Rheoli Canol Tref i gyflogi Rheolwr Canol Tref a threfnu i gynhyrchu deunydd hyrwyddo a rhaglen o weithgareddau;
- comisiynu Action for Market Towns i gynnal ymarfer meincnodi ar gyfer canol y dref.

Mae hyder buddsoddwyr parhaus yng nghanol y dref yn amlwg gyda dyfodiad y cadwyni cenedlaethol Costa Coffee, Poundland, Vue Cinemas a Yeomans Outdoor yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Yn ystod y ddwy flynedd nesaf;

- bydd strategaeth newydd wedi'i chytuno ar gyfer canol y dref i adlewyrchu'r amodau marchnad newidiol sy'n ei wynebu;
- Bydd Briff Datblygu wedi'i baratoi ar gyfer yr ardal ger y Queen's Market sydd wedi'i neilltuo ar gyfer datblygiad adwerthu newydd yn y Cynllun Datblygu Lleol newydd ar gyfer Sir Ddinbych ac sy'n cynnig y cyfle gorau ar gyfer adwerthwyr cenedlaethol sydd angen arwynebedd llawr mawr yng nghanol y dref; a
- Bydd Network Rail wedi cwblhau buddsoddiad o £2.3m i wella cyfleusterau teithwyr yn yr orsaf rheilffordd.

**...sefydlu marchnad stryd ar y Stryd Fawr...**






# Town Centre Work Stream

The aim of this work stream is to create new business and job opportunities in the town centre by supporting investment in retailing, but also by introducing new uses and diversifying the town centre economy.

This work stream does require further development but progress has already been made on a number of actions and these include;

- a massive improvement to the appearance of the principal arrival point in the town centre for people using public transport by restoring the former Bee & Station and Costigan's public houses and these properties will now be able to accommodate new types of employment in the town centre;
- restoring the exterior of the derelict property at 45-47 Water Street;
- establishing a street market in the High Street and Market Street on Thursdays and Saturdays;
- setting up a Town Centre Management Group to employ a Town Centre Manager and to arrange the production of promotional materials and a programme of activities;
- commissioning Action for Market Towns to undertake a bench marking exercise for the town centre.

Continuing investor confidence in the town centre has been demonstrated by the arrival of national chains Costa Coffee, Poundland, Vue Cinemas and Yeomans Outdoor over the last year.

Over the next two years;

- a new strategy will have been agreed for the town centre to reflect the changing market conditions which it faces;
- a Development Brief will have been prepared for the area around the Queen's Market which has been allocated for new retail development in the new Local Development for Denbighshire and which offers the best opportunity for accommodating national retailers with requirements for larger amounts of floor space in the town centre; and
- Network Rail will have completed a £2.3m investment to improve passenger facilities at the railway station.

**...establishing a street market in the High Street...**



# Llif Gwaith Bywyd a Gwaith

Nod y llif gwaith hwn yw cynyddu dymunoldeb y Rhyl fel lle i fyw, gweithio, buddsoddi a gwneud busnes.

Mae angen datblygu'r llif gwaith hwn ymhellach hefyd, ond mae'r cynnydd hyd yma yn cynnwys;

- cwblhau dau gam cyntaf yr amddiffynfeydd arfordirol newydd yn ardal Harbwr y Rhyl;
- cwblhau trac beicio mynydd newydd yng Nglan Morfa sy'n ategu'r trac beicio ffordd 1.3km presennol;
- Cwblhau pysgodfa gymunedol ac ardal adfywio ger Ffos y Rhyl.

Yn ystod y ddwy flynedd nesaf;

- fel trefi eraill yn Sir Ddinbych, bydd Cynllun Tref ac Ardal wedi'i gytuno ar gyfer y Rhyl fydd yn sefydlu'r sefyllfa bresennol yn y dref gyfan, yr heriau y mae'n debygol o'u wynebu yn ystod y blynyddoedd i ddod, a'r camau blaenoriaeth sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r heriau hyn;
- Bydd dyluniadau wedi'u cwblhau ar gyfer ysgol uwchradd 21ain ganrif newydd gwerth £25m ar gyfer y dref; a
- bydd achos busnes wedi'i ddatblygu ar gyfer ysbyty cymunedol £22m newydd yn y dref.





# Live & Work Work Stream

The aim of this work stream is to increase the desirability of Rhyl as a place in which to live, work, invest and do business.

This work stream also requires some further development but progress to date includes;

- the completion of the first two phases of the new coastal defences in the Rhyl Harbour area;
- the completion of a new mountain bike track at Glan Morfa which complements the existing 1.3km road cycling track;
- the completion of a community fishery and recreation area alongside Rhyl Cut.

Over the next two years;

- like the other towns in Denbighshire, a new Town & Area Plan will have been agreed for Rhyl which will set out the current situation in the town as a whole, the challenges it is likely to face over the years ahead, and the priority actions which are required to address these challenges;
- designs will have been finalised for a new £25m 21st century high school for the town; and
- a business case will have developed for a new £22m community hospital in the town.



# Casgliad

Y bwriad pan gymeradwywyd Cynllun Darparu Cymdogaeth a Lleoedd y Rhyl yn Symud Ymlaen oedd y dylai etifeddiaeth y buddsoddiad;

- greu marchnad dai cynaliadwy yng Ngorllewin y Rhyl lle mae'r gofyniad am fuddsoddiad cyhoeddus parhaus yn y stoc tai preifat ac amgylchedd ffisegol cyffredinol wedi lleihau yn sylweddol a'r ardal yn un o ddewis yn hytrach na o angen;
- mwy o bobl yn ymweld â'r Rhyl oherwydd bod yr hyn sydd i'w gynnig o ran twristiaeth a hamdden, o'r sectorau cyhoeddus a phreifat, yn ddeniadol ac wedi'i gynnal yn dda;
- canol y dref yn cynnig ystod dda o siopau a gwasanaethau mewn amgylchedd ansawdd uchel gyda strydoedd glân; a
- Busnesau newydd eisiau cael eu lleoli yn y Rhyl a chyfleoedd swyddi newydd yn cael eu creu yn rheolaidd.

Mae'n amlwg o'r Adroddiad Blynyddol hwn bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud eisoes tuag at y canlyniadau hyn ond mae llawer i'w wneud a bydd y camau gweithredu a gynlluniwyd yn ystod y ddwy flynedd nesaf yn cynnal y momentwm hwn.

# Conclusion

The intention when the Rhyl Going Forward Neighbourhood & Places Delivery Plan was approved was that the legacy of the investment made should be;

- the creation of a sustainable housing market in West Rhyl where the requirement for ongoing public investment in the private housing stock and general physical environment is significantly reduced and the area become one of housing choice rather than need;
- more people visiting Rhyl because the tourism and leisure offer, both from the public and private sectors, is attractive and well maintained;
- the town centre offering a good range of shops and services in a high quality, clean street environment; and
- new businesses wanting to locate in Rhyl and new job opportunities being regularly created.

It is evident from this Annual Report that significant progress towards these outcomes has already been made but there remains much to do and the actions planned over the next two years will maintain this momentum.



# Cysylltwch â ni

I gael rhagor o wybodaeth am raglen y Rhyl yn Symud Ymlaen neu unrhyw agwedd o'r gwaith, e-bostiwch y partneriaid trwy yrhylynsymudymlaen@sirddinbych.gov.uk

# Contact us

For more information about the Rhyl Going Forward programme or any aspect of the work, e-mail the partners via rhylgoingforward@denbighshire.gov.uk

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

RBG

The co-operative

RCS

Wales Co-operative Centre
Canolfan Cydweithredol Cymru

CYNGOR TREF Y RHYL TOWN COUNCIL

Cymdeithas Tai CLWYD ALYN Housing Association

Coleg Llandrillo

communities first cymunedau yn gyntaf

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ariennir gan Llywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government